





Digitized by the Internet Archive
in 2016

<https://archive.org/details/merchedymwmbwlse00megf>

E.P.C. Welsh Drama Series, No. 46.

MERCHED Y MWMBWLS

(*Efelychiad o'r adroddiad enwog, "The
Women of Mumbles Head."*)

DRAMA MEWN UN ACT.

Gan

MEGFAM.



CARDIFF:

THE EDUCATIONAL PUBLISHING CO., LTD.

LONDON: 9, SOUTHAMPTON STREET, HOLBORN, W.C., 1.

1921.

UNIVERSITY OF
ILLINOIS LIBRARY
AT URBANA-CHAMPAIGN

*Rhaid cael caniatâd i chware'r
ddrama hon. Anfoner ceisiadau
at y Cyhoeddwy.*

*Copyright under the Copyright
Act, 1910.*

—
*Licences granted for public
performance by the
Educational Publishing Co., Ltd.,
London and Cardiff.*

891.662

W 465

no. 46

CYMERIADAU :

Nifer o forwyr—Ben, Dic, Ned, Tim Ned, Dai Jones,
a Sam Caleb.

MARI A BESS - Dwy chwaer i Ben y morwr.

SHAN - - - Hen wraig, mam Dic.

NEL

BETI } - - - Gwragedd y morwyr.

PEGI }

MARY JANE - - - - Merch ifanc.

SAL } - - - Cymydogion Mari

GWENNO } a Bess.

SALI WAT Hen wraig oedrannus, mam Gwennno.

LISA JONES - - - - Merch ifanc.

JENNY - - - - Merch fach, naw oed.

TOMI BACH - - - - Bachgen bach.

Nifer o wŷr, gwragedd, a phlant.

Actie grad. Ege. Parry 12 of 23 Educ. Publ. Co.

p 46843

MERCHED Y MWMBWLS.

[GOLYGFA.—*Ar lan y môr ar noson arw. Gwelir tyrfa lled fawr o wŷr a gwragedd, a rhai plant, yn edrych allan i gyfeiriad y môr. Safant ar y traeth mewn cysgod, gan fod y graig ar un ochr, a'r môr o'r golwg o'u blaen. Mae'r rhan fwyaf o'r gwŷr yn ymddangos fel morwyr a physgotwyr. Mae'r gwragedd â shawls am eu pennau a thros eu hysgwyddau. Mae llong mewn perigl ar y creigiau draw. Clywir sŵn gwynt a glaw a "rockets," a daw rhagor o bobl i'r traeth. Edrycha pawb yn bryderus a gofidus. Sŵn cloch yn canu.]*

NED : Dewch fechgyn, rhaid mynd â'r bywyd-fad mâs. Dyna Capten Jones yn galw. Rhaid mynd. (*Sŵn rhywun yn galw "Hei! Hoi!"*) Good-bye, ferched. Dymunwch bob lwc i ni, wnewch chi?

MARI : Gwnawn, yn wir. Dewch â nhw i gyd 'nol yn y bad. Druan o'r llong! Mae ar ben arni. Dyna'r don wedi golchi drosti!

SHAN : Nage—mae yn dal i fyny eto. Wyt ti yn mynd, Dic? (*Yn rhoi ei braich am ei wddf.*) O, 'machgen mawr i!

DIC : Wel, odw, mam! Welsoch chi fi erioed ar ol pan oedd galw? Ond mae'r bechgyn i gyd yn

MERCHED Y MWMBWLS

mynd. (*Yn troi at MARY JANE.*) *Good-bye*, merch i—fe ddown yn ol, os Duw a'i myn. Gofala am mam, wnei di? Dyma fi yn mynd, mam. (*Nifer o'r morwyr yn mynd, gan ffarwelio â'u perth'nasau.*)

NEL: Rhaid i fi gael eu gweld yn tynnu'r bad mâs, ac yn mynd ag e' i'r dŵr. (*NEL ac eraill yn rhedeg allan.*)

SHAN (*yn gwaeddi*): Dere 'nol, Nel, mae'n ofnadwy heibio i war y graig—mae eisieu dyn cryf i sefyll yn nannedd y gwynt. Mae cysgod lled dda fan hyn.

BETI: Ddaw Nel ddim 'nol, os gall fynd i'w gweld rywfodd. O diar! mae'n noson ofnadwy! Glyw di'r gwynt yn rhuo, ac yn curo'r tonnau yn erbyn y graig. Mae'n llawn cynddrwg heno a'r noson honno pan aeth y "*Lady Mary*" yn ddarnau ar y graig—mae yna agos i ddwy flynedd odddiar hynny, on'd oes e'?

NEL (*yn dod 'nol gan sychu ei hwyneb, ac yn ymddangos yn flinedig*): O'r annwl bach! Mae hi'n ofnadwy 'r ochor arall i'r graig. Mae'r tonnau'n gynddeiriog, a'r gwynt yn wallgo'—fe fuo i bron â chael fy chwythu i'r môr.

SHAN: Odi nhw'n barod? Mae'r llong bron â mynd i lawr. Na, mae'n dal i fyny eto. Dyna *rocket* arall o'r llong.

NEL: Edrychwch, dyna'r bad allan! (*Yn gwaeddi*) Hwre! Pob lwc, fechgyn!

MERCHED Y MWMBWLS

MARY JANE : Dyma fi'n mynd lawr yn nês at y dŵr.

SAL : Mae yna ddigon yn barod. Arhoswch fan hyn, ferched.

BESS : Mae'r llong yna yn soddi. Druan o honynt. All dim, na neb eu hachub! Mae'r môr yn rhy arw i unrhyw fad i allu 'u cyrraedd.

GWENNO (*yn rhedeg i mewn a'i gwallt ar led*) : Mae Tom, a Ned, a Bob ni yn y bad. A Sam chi, Pegi. O diar! mae'r gwynt yn ofnadwy!

MARI : Lwc dda i'r bechgyn, weda i.

SHAN : Maent wedi mynd allan lawer tro o'r blaen, ac wedi gwneuthur gwaith da. Y nef a'u bendithio!

NEL : Dyna fe yn y dŵr! A welwch chi Capten Jones wrth y llyw, fel mae e' wedi bod pob tro mae'r bad wedi mynd allan am yn agos i ugain mlynedd? (*Rhagor o'r gwagedd yn dod i gysgod y graig.*)

PEGI : Y nefoedd a'u hachub hwynt! Mae Huw ni yn y bad. (*Yn troi at y rhai fu lawer wrth y dŵr.*) Welsoch chi fe?

GWENNO : Do, a Dic.

SHAN : Pa fad all fyw yn y fath storm? Mae'r tonnau fel mynyddau!

MARY JANE : Ni ddaw yr un o nhw 'nol. Gwell fyddai gadael y llong druan, i'w thynged, na chollu ein dynion ni hefyd. (*Yn dechreu crio.*)

MERCHED Y MWMBWLS

SAL : Taw sôn, Mary Jane, â dy gleber. Mae'r bad wedi mynd mâs ddwseni o weithiau, ac wedi bod mewn llawer storm cynddrwg a heno, a phawb wedi dod 'nol yn ddiogel. Cwn dy galon, da ti.

SHAN : Wn inna ddim beth sy'n bod, ond mae arna i ofn ofnadw' heno.

SAL (*yn canu yn ddistaw bach, ar y dôn "Melita"**) :

“ Tydi fu gynt, Anfeidrol Iôr,
Yn cau anesmwyth donnau'r môr,
Gan erchi i'r dyfnder llydan, maith
Aros yn ei derfynau llaith.
O! clyw ein cri dros rai, ein Iôr,
Sydd mewn enbydrwydd ar y môr.”

NEL : Welwch chi'r bad? Mae hi'n galed arno! Dyna'r don drostynt! Na, dyna fe i'r golwg eto!

MARY JANE : Wel, gwedwch y gwir! 'Tawn i byth o'r fan yma, dyma'r hen Sali Wat yn dod lawr dros y graig!

GWENNO (*yn wyllt*) : Pwy? B'le? Mam yn dod? 'Roedd hi yn y gwely gyda Mary fach a Tomi pan ddes i mâs. O'r annwl! (*Yn rhedeg i gwrdd â'i mam.*)

SHAN : Nid wyf yn cofio i'r bad fynd mâs erioed o'r blaen heb fod Sali Wat gyda'r *boys* yn rhoi *push*

*“Melita,” Llawlyfr Moliant.

MERCHED Y MWMBWLS

off iddo. Aros yn y gwely! Na, allai hi ddim, er ei bod dros ei phedwar ugain a dwy oddiar Calan Mai. (SALI WAT yn dod ar bwys dwey ffon, cap nos ar ei phen o dan shawl fach. Shawl fawr bron a'i gorchuddio.)

MARI : Wel, Sali fach, dyma ti wedi dod unwaith eto.

SALI WAT : Odi'r bad wedi mynd ?

SHAN : Odi, mae e' draw, bron o'r golwg 'nawr. Mae'r môr yn arw henol!

SALI WAT : Odi'n wir, ond mae "'Nhad wrth y llyw.'" 'Roedd Gwenno yn meddwl 'mod i yn mynd i aros yn y gwely, ond dim o'r fath beth. Ni aeth y bad mâs erioed o'r blaen heb 'mod i yma. Y fi oedd yma gynta' ar y noson ofnadwy honno bymtheng mlynedd yn ol pan aeth William ni yn y bad, ond ddaeth e', na llawer un arall, byth yn ol. Ni fydd fy amser i yn faith eto, fe groesa i 'r afon cyn bo hir.

GWENNO : Dewch i eistedd ar y garreg draw fan yna, mam, wnewch chi ? Mae yna dipyn o gysgod.

BESS : Ie, dewch i gyd yn nês i gysgod y graig. Dyna wraig Ned Tomos fan yco, Mari. Mae Ned Tomos a Wil Bifan mâs yn pysgota oddiar neithiwr.

SHAN : Druan o Shwan! Fe af i siarad â hi. (*Yn croesi draw at dair gwraig sy'n llechu gerllaw'r graig.*)

NEL : A welwch chi'r bad 'nawr yn rhywle ?

MERCHED Y MWMBWLS

BETI : Na, mae'r tonna' yn rhy uchel. (*Sŵn rocket.*) Isht! Dyna *rocket* arall! Mae hi bron bod ar ben ar y llong druan. Faint sydd ynnddi, tybed ?

SAL : Wn i yn y byd. Mae'n edrych yn llong lled fawr. O b'le mae'n dod ? Mae rhyw wragedd bach yn rhywle mewn pryder mawr heno ynghylch y rhai sydd fan draw yn disgwyl y bad i ddod.

BETI : Tybed a all y bad eu cyrraedd ar noson mor arw ? Mae'n galed arnynt. Beth petai'r bad yn methu, a'n bechgyn ni'n cael eu taflu i'r môr! O, mam fach annwyl!

MARI : Dim ond gweddïo yn ddistaw bach alla i wneud 'nawr, a'r un geiriau o hyd, " Duw, cadw hwynt." Dyna gyd, ond fe ddealla Ef beth wy'n geisio ddweyd.

SALI : Byddant yn eitha diogel, fe gei weld. Cofiwch sawl gwaith mae'r bechgyn wedi mynd allan o'r blaen, a gwyddoch nad oes yr un ohonom a garai wybod fod ei gŵr, neu ei mab, yn aros ar y lan yn ddiogel, yn lle cymeryd ei le yn y bad. Na wir, byddai cywilydd arna i edrych yn wyneb yr un o honoch petai Dai ni adre, yn lle bod yn y bad heno.

PEGI : Fe ddeuant 'nol, fe gewch weld, wedi achub pob un sydd yn y llong. Onid yw Capten Jones wrth y llyw ? Sawl gwaith mae dy dad wedi bod mâs â'r bad, Jenny ?

MERCHED Y MWMBWLS

JENNY (*merch fach, tua naw oed, sydd newydd ddod at y gwragedd*): Yr oedd e'n dweyd neithiwr, mae dim ond un tro eto oedd eisieu, iddo gael *Jiwibili*.

SAL: Hanner cant o weithia yw heno, felly.

JENNY: Ie, ac 'roedd mami yn dweyd fod bron saith mlynedd er pan daeth dadi a fi yn ol yn ei freichiau pan aeth y llong i lawr, ac y boddwyd pawb, ond myfi, a Jaci y morwr.

SHAN (*sydd wedi dod 'nol yn ystod y siarad*): Ie, bydd yn saith mlynedd wythnos i nos yfory, a noswaith arw iawn oedd hi, a ti oedd y babi glana' welais i erioed, er mod i wedi magu saith mor lân a neb yn y pentre, ond yr oeddet ti, Jenny fach, fel angel o'r nef.

JENNY: "Perl y môr" mae dadi yn fy ngalw i. Ydych chi'n credu y daw'r bad 'nol â 'nhad heno?

NEL: Daw, wrth gwrs, er na bu dy dad mâs erioed ar waeth noswaith na heno.

BESS: Welwch chi'r bad? B'le mae e'?

JENNY: Mae'n well i fi redeg i'r tŷ i weld os oes eisieu rhywbeth ar mami. (*Yn rhedeg allan heibio'r graig.*)

SAL: Dyna'r trysor gore gafodd Capten Jones neu unrhyw un arall o'r môr. Dewch yn nês i gysgod y graig, ferched, mae hi'n dechre bwrw glaw eto, a mae'r gwynt yn ofnadwy. (*Pawb yn symud ychydig. Dau ddyn a merch yn dod i'r golwg.*)

MERCHED Y MWMBWLS

BETI : Edrych, Sal, dyna ragor wedi dod. O! Lisa Jones, a Dai Jones, a Tim Ned sydd yna.

SAL : Ie, dau dda ydynt hwy. Wffit shwd ddynion! 'Nawr maent yn dod, ar ol i'r bad fynd mâs. (*Dyn arall yn symud o gysgod y graig i siarad â DAI JONES a TIM NED.*)

MARI : A dyma Sam Caleb yn mynd atynt 'nawr. Ach-a-fi. (*Yn codi ei llais.*) Dynion yn wir! Beth ydych chi'n feddwl wrth sefyll fanna a'r bad y fan draw?

LISA JONES : Ond mae yna ddigon yn y bad. Does dim eisieu rhagor ynddo.

MARI : Na, diolch i'r Arglwydd, yr oedd yna fwy na digon yn barod, ond wyddai y crachod yna ddim o hynny.

SHAN : Weli di b'le maent 'nawr, Nel? B'le mae'r bad, a sut mae ar y llong druan?

NEL : Wn i ddim yn wir, wela i ddim.

BETI : O 'mhlant bach i—a ddaw eich tad 'nol?

SAL : Dere fan hyn, Beti, i ni weddïo ar i Dduw eu cadw, a'u dwyn yn ol. (*Yn mynd ychydig bach naill ochr, ac i'w gweled fel petai'n gweddïo.*)

NEL : Ust! clywch, maent yn canu.

MARI : Nage, sŵn y tonnau yn taro ar y graig wyt ti'n glywed.

NEL : Canu maent yn wir. Ust! Clywch! (*Yn sisial ganu, "Tyn am y lan, forwr, tyn am y lan," etc.*)

MERCHED Y MWMBWLS

SHAN : Na, Nel fach, does yna neb yn canu, ond y gwynt ofnadwy—ti sy'n meddwl eu bod. (*Sŵn rocket arall.*)

GWENNO : Dyna *rocket* arall! Welwch chi'r bad?

BESS : Na, ond maent yn tynnu at y llong.

NEL : Ow! o mam annwl! Dyna'r llong wedi taro'r graig! (*Pawb yn symud ymlaen ac yn craffu, gan wasgu eu dwylaw mewn braw. Sŵn llefain o bell.*)

MARY JANE : O'r trueiniaid bach! (*Yn gweddio.*) Arglwydd grasol, cadw hwynt! cadw hwynt!

PEGI : B'le mae'r bad? Welwch chi e'?

NEL : Na, mae'r cyfan wedi ei guddio gan y tonna'. (*Yn rhedeg yn nês at y dŵr.*)

SAL : Isht! clywch hwy'n gwaeddi! Dyna'r bad wedi troi! Maent i gyd yn y dŵr! Mae ar ben ar y bad! Beth allwn ni wneud? Rhywun! Rhywbeth!

MARI : O, dyna'r bad wedi mynd yn ganddryll ar y creigiau. Mae ar ben arnynt! O, 'mechgyn bach i! Ow! Ow! (*Pawb yn symud yn nês at y môr, a llawer yn wyllo.*)

SHAN : Welwch chi rywun yn y dŵr?

SALI : Na, ddim yn awr. O! dyna rai wedi nofio i'r ogof, a mae dau wedi cyrraedd i ochor arall y graig. Hwre! Diolch iddo!

MERCHED Y MWMBWLS

NEL (*yn dod 'nol*) : Hwre! dyna dri wedi cyrraedd y lan. Whaff, Pegi a Beti, mae Sam ac Ifan draw fan yna! (*Tair neu bedair yn rhedeg allan.*)

BESS : Oes yna rywun arall i'w weld? Ydych chi'n credu fod pawb oedd yn y bad wedi dod i'r ogof neu i'r traeth yr ochor draw i'r graig. Os ydynt, fe'u cawn adre pan yr ä y *tide 'nol*.

SAL (*yn gwaeddi mewn braw*) : O! mae rhywun yn y dŵr—draw fan yna. (*Yn cyfeirio â'i bys.*)

SHAN : O! druan bach!

MARI : Mae ei nerth yn pallu. Mae yn boddi yn ymyl y lan! Allwn ni wneuthur dim i'w achub! (*Llawer yn torri allan i wylo.*) O! mi af yn ddwl, af yn wir!

NEL : Dewch, chi'r dynion! Gwnewch rywbeth yn rhwydd. Mae hi ar ben arno, dewch ar unwaith. Y dyn bach yn ymladd â'r tonnau, a neb yn mynd i'w waredu!

TIM NED : All neb ei achub a'r môr fel y mae heno. Taflu bywyd i ffwrdd fyddai ceisio, i'e'n wir.

DAI JONES : Fe fyddwn ni'n barod i fynd petai rhyw ffordd i'w achub ef, ond y mae ar ben arno! *Poor fellow!* (*Yn crynu gan ofn.*)

BESS (*yn cyflym dorri ei shawl yn ddarnau hirion*): *Poor fellow*, yn wir!

NEL : Beth wyt ti'n 'neud, Bess?

SAM CALEB : Does yma'r un raff, ac ni all neb fynd heb raff. Wel! wel! mae yn drueni hefyd ei

MERCHED Y MWMBWLS

adael i foddi, ond ni all neb fyw yn y fath fôr, na all yn wir!

BESS (*yn c'lymu y darnau o'r shawl*): Dyma raff, ferched. Rhaid ei achub e'.

SAL : Ydych chi'n galw'ch hunain yn ddynion! Na, babis ydych eich tri! Rhag cywilydd i chi! Ach-a-fi!

BESS (*yn troi ei dillad am ei chanol*) : Dyma fi yn mynd. Pwy ddaw gyda fi!

MARI (*yn gwneud yr un fath*) : Dyma fi yn dod gyda thi. (JENNY yn dod 'nol.)

SAL (*yn torri ei ffedog ac yn clymu'r darnau fel y ddwy arall*) : Gadewch i fi fynd!

SHAN : Na, Sal, cofia am dy blant bach. Aros di yma.

SAL : Beth os mai Wil ni sydd fan draw ar ei oreu druan bach, yn treio dod 'nol ataf fi a'r plant.

NEL : Clymwch hwynt i gyd gyda'i gilydd. (*Yn clymu y darnau shawls*). Jenny fach, edrych am raff, wnei di, a gofyn i'r plant dy helpu di.

JENNY : O'r gore. (*Yn mynd i chwilio*.)

MARI : Un clwm eto! Dyna fe! 'Nawr am fy nghanol i. (NEL yn rhoi'r rhaff am ganol MARI a'i ch'lymu'n dyn.)

SAL : Weli di e' 'nawr, Bess?

BESS : Gwelaf, mae'n cadw 'mlaen, ond mae'n galed arno, druan bach!

MERCHED Y MWMBWLS

NEL : 'Nawr am danat ti, Bess. Dyna fe! (*Yn c'lymu'r rhaff am ganol Bess tra y saif ychydig tu ol i MARI.*) Dere â rhagor, Mary Ann! C'lymwch ymlaen. Dyna fe!

MARI : Cofiwch roi clwm cryf iddi. (*NEL yn ei roi.*) Dyna fe! Rho dy law i fi, Bess, a fe gydiwn yn y rhaff â'r llaw arall. Dyma ni yn mynd, ferched. (*Yn mynd allan.*)

NEL : Pob lwc i chi. Dewch ag e' 'nol! Cofiwch dynnu'r rhaff os byddwch am ddod 'nol.

SHAN (*yn galw*) : Peidiwch mentro gormod, da chi, ferched!

PAWB (*yn galw*) : Lwc dda i chi, a'r nefoedd fo gyda chi! (*Pawb yn dal gafael yn y rhaff, ond NEL. Mae hi yn teimlo pob clwm, i weld os yw'r rhaff yn ddigon cryf.*)

JENNY (*yn rhedeg i mewn â rhaff yn ei llaw*): Dyma raff o fad Shôn Bifan.

NEL : Rhowch glwm cryf arni. (*Yn c'lymu y rhaff wrth y llall.*)

GWENNO : Mae popeth wedi distewi, ond y storom.

SHAN : Fe achubant y dyn—gwnant, 'rwy'n siwr—maent yn llaw Duw.

TOMI BACH (*yn dod i mewn*) : Dyna nhw o'r golwg, dan y don!

NEL : O'r annwl! beth os boddant gyda'r lleill! Rhowch y rhaff allan—digion o honi!

MERCHED Y MWMBWLS

SHAN : Na, foddant hwy ddim—dal dy afal yn y rhaff, Nel. Fe arbeda Duw ddwy mor wrol a Mari a Bess.

GWENNO : Alla i wneud dim ond gweddïo a dal ar y rhaff.

SAL : Faint mwy wyt ti am wneud? Dyna i gyd mae'r Brenin Mawr am i ni wneud—gweddïo a gweithio. Dal dy afal yn y Dwyfol, ond paid ag anghofio y rhaff ddynol sydd yn dy law.

NEL : Isht! Beth oedd y sŵn yna? Dyna fe eto! (*Bloedd yn dod o'r pellter.*) Welwch chi rywbeth?

MARY JANE : Na, ond dyna floedd eto. Ust! Clywch! (*Bloedd yn dod.*)

SHAN : O! diolch i'r nefoedd, maent wedi ei gael. Mae'r rhaff yn cael ei thynnu! Dyna'r arwydd i ni dynnu i mewn! Dewch, tynnwch ferched, tynnwch!

NEL : 'Nawr, pawb gyda'i gilydd! (*Pawb yn tynnu a'r dynion yn dod i'w cynorthwyo.*)

SALI WAT (*yn dod atynt*) : Dyna'r ffordd. Eto! Eto! O, diolch i'r nefoedd!

GWENNO : Dyma 'mam yn dod i'n helpu. Dewch fan hyn, mam, fe ellwch dynnu tipyn bach gyda fi.

SALI WAT : Fe dynnaf i â'r anadl ola i gael y merched 'nol, gwnaf yn wir! (*Yn tynnu gyda GWENNO.*)

MERCHED Y MWMBWLS

NEL : Tynnwch! Eto! “ Diolch iddo, byth am gofio llwch y llawr!”

TOMI (*yn rhedeg i mewn*) : Maent yn dod i'r golwg heibio'r graig fawr, a mae rhywun rhwng y ddwy! (*Yn neidio ac yn gwaeddi “ Hwre!” Y gwragedd yn gwaeddi “ Hwre!”*)

SHAN : Tomi, dere yma. Cer i 'mofyn Dr. Williams, a dere ag e' i dŷ Mari a Bess! (*TOMI yn mynd.*)

NEL : 'Nawr, chi nad ydych yn tynnu'r rhaff, ewch lawr i'w cwrdd, a chariwch y dyn i'r tŷ agosaf —tŷ Mari a Bess yw hwnnw! (*Y dynion ac ychydig o wragedd yn mynd.*)

MARY JANE : Gwenno, dere i ni fynd i'r tŷ i roi pethau yn barod erbyn daw'r merched 'nol â'r baich dynol!

SHAN : Ie, dyna fydd ore, Mary Jane.

GWENNO : Dyma fi yn mynd mam. Shan, gofala am mam, wnei di, a dere a hi lan tua'r tŷ ar ol i'r merched ddod 'nol, da ti?

SHAN : O'r gore, cer di, Gwenno fach. (*GWENNO a MARY JANE yn mynd allan.*)

NEL (*yn galw ar ei hol*) : Cofia, Mary Jane, fod yna ddiagon o ddillad sych, a thân mawr, a dŵr berw yn barod. Mae Bess yn cadw'r dillad glân yn y cas-an-drors.

GWENNO (*yn ateb o bell*) : O'r gore. Fe wnawn bopeth yn barod, a chwpanaid o dê berw.

MERCHED Y MWMBWLS

SAL : Tynnwch i gyd! Dewch! dewch! Dyna nhw ar y traeth! Mae'r rhaff yn *slack*. Tyn y clwm hyn yn rhydd, Nel, i fi gael rhedeg i'w cwrdd. (NEL yn *rhedeg allan*.) O! dyna Nel wedi mynd. Torrwch y clwm, wnewch chi—rhywun, dyma fi yn mynd. (*Yn rhedeg allan*.)

Y PLANT A'R GWRAGEDD (*o'r golwg gerllaw y dŵr*): Hwre! Hwre! Hip—hip—hwre!

SAM CALEB : Mae'n well i fi dorri y clwm fan hyn, lle bod y rhaff yn tynnu wrthynt o hyd. (*Yn ei thorri*.)

SALI WAT : Dere, Shan, cer â fi lawr at y dŵr. Fe fydd eisieu *shawls* ar y merched wedi bod yn y dŵr. (*Pawb arall wedi mynd allan*.)

SHAN : Cadw dy afael yn y rhaff, Sali, a fe awn ar ol y lleill. Dyna nhw wedi dod i'r lan! Glyw di y gwaeddi! (*Sŵn "Hwre!" Y ddwy yn mynd allan. Sŵn "Well done, Bess a Mari! Hwre! Hwre!" Yr orymdaith yn dod i'r golwg.* MARI wedi ei chuddio â shawl NEL, a BESS â shawl SALI WAT. Y morwr yn cael ei gario gan TIM NED a DAI JONES.)

SAL : Ewch ag ef i dŷ Mari. Mae popeth yn barod. (*Y dynion yn mynd allan, a phawb yn siglo llaw â MARI a BESS, a llawer o siarad*.)

BETI (*yn dod 'nol*): Pwy yw e'?

NEL : Ben, brawd Mari a Bess. Dyna ryfedd mae pethau yn digwydd!

MERCHED Y MWMBWLS

BETI : “ Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr
Yn dwyn Ei waith i ben.”

SHAN : Ie'n wir.

PEGI (*yn dod 'nol*) : Ydi e'n fyw ?

BESS : O, odi ; ond mae wedi cael dolur mawr
ar ei fraich dde a'i ysgwydd.

MARI : 'Roedd e' bron a threngi pan gawsom
afael ynddo, â'i fraich am damaid o'r bad. Dyna'i
cadwodd e' i'r lan neu fe fuasai wedi boddi.

SHAN : Cer tua thre, Mari, a thithau, Bess, i
newid eich dillad a chael rhywbeth twym. Cerwch
chwaff, nawr!

JENNY (*yn cydio yn llaw BESS ac hefyd yn un*
MARI) : Diolch yn fawr am achub Ben o'r môr.
Welsoch chi Dadi ?

BESS : Naddo, Jenny fach, ond mae dadi a'r lleill
wedi cyrraedd yr ogof, neu'r lan fan draw, ti elli fod
yn siwr.

GWENNO (*yn dod 'nol*) : Dewch, ferched! Mae
Mary Jane a Shenad Tomos yn rhoi Ben yn y gwely,
a mae Dr. Williams wedi dod. Dewch 'nawr, da
chi, dewch. (BESS, MARI, JENNY, NEL, SAL, *etc.*
yn mynd allan.) Mam, b'le mae eich *shawl* fawr
chi ? Byddwch yn siwr o fod yn dost yn y gwely
ar ol heno.

SALI WAT : Mae'n *shawl* i gyda Bess.

SHAN : Yr oedd yn rhaid i dy fam gael rhoi ei
shawl i Mari—ni wnai *shawl* neb arall y tro.

MERCHED Y MWMBWLS

(GWENNO yn tynnu ei shawl ac yn ei rhoi am ei mam.)

GWENNO (yn mynd ar ol BESS a MARI) : Dewch â mam adre, Shan a Beti.

SHAN (yn troi at BETI a PEGI) : Sut mae eich dynion chi ? Yr ydym i gyd wedi anghofio am bawb, ond am Bess a Mari.

PEGI : O, nid ydynt damaid gwaeth ; maent wedi newid 'nawr, ac yn cael tamaid o fwyd.

BETI : Yr oedd rhaid i ni ddod lawr pan glywsom y gwaeddi, i gael gweld pwy oedd Bess a Mari wedi ei gael o'r môr. Dewch i lan i'r tŷ. (*Yn mynd allan.*)

JENNY (yn rhedeg 'nol) : Mae dadi wedi dod ! Hwre ! a'r bechgyn gydag e'. Hwre ! (*Yn rhedeg allan.*)

SHAN : I feddwl mai eu hunig frawd a achubwyd ganddynt !

SALI WAT : Mae yna galonnau trwm mewn llawer man heno—faint oedd yn y llong, tybed ? Mae yma destun diolch fod ein gweddïau ni wedi eu hateb, a'r bechgyn wedi eu harbed i gyd.

SHAN : Dere adre, Sali. Bydd cof am heno mewn oesau i ddod, a bydd merched Cymru mewn canrifoedd yn darllen am ferched y Mwmbwls, fel oeddent yn barod pan ddaeth yr alwad i wneud gorchest fawr.

SALI WAT : Ie, fyddwn ni ddim yma yn hir eto.

MERCHED Y MWMBWLS

Mae stormydd bywyd bron â dod i ben, ac er bod y cwch bach yma wedi taro yn aml yn erbyn y graig, mae'r Bywyd-fad gerllaw i fynd â fi i'r Hafan Dawel. Fe ddaw y bad, heb fod yn hir—a fe fydd y Pen-Capten wrth y llyw—ar ryw noson, yn sŵn y storm, i'm mofyn i adre, ond 'rwy'n falch Ei fod wedi'm gadael yma hyd heno, i mi gael gweld dewrder Bess a Mari ; a phan gwrrdda i â'u tad a'u mam ar y lan draw, dyna stori fydd gen i i ddweyd wrthynt am eu plant. Bendigedig!

SHAN : Ie'n wir. Dere, mae pawb wedi mynd. Isht! Dyna ganu! Mae Capten Jones a'r bechgyn i gyd o flaen y tŷ yn canu. Clyw! Dere i ni fynd lan yna. (*Y ddwy yn symud allan yn araf a sŵn canu y dôn "Melita" yn dod atynt.*)

“ O Drindod Cariad! cadw'n awr
Ein brodyr mewn cyfyngder mawr,
Rhag craig a thymestl, llid a brad,
Dy nawdd fo drostynt ymhob gwlad :
Ac yna byth i Ti, ein Iôr,
Boed llawen fawl ar dir a môr.”

LLEN.



E.P.C. New List of Plays & Dramas IN ENGLISH AND WELSH.

NOSON O FARRUG. (*R. G. Berry.*) 1/- net,
post free 1/2.

Y PWYLLGOR. (*D. T. Davies.*) 1/- net, post
free 1/2.

YR HEN DEILIWR. (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net,
post free 1/2.

THE GREAT EXPERIMENT. (*Naunton Davies
and Stanley Drewitt.*) 2/- net, post free, 2/3.

THOSE WHO WAIT. (*Ernest Cove.*) 1/- net,
post free 1/2.

LLWYBRAU ANRHYDEDD. (*D. Derwenydd
Morgan.*) 2/- net, post free 2/3.

RYBECA. (*Gwili.*) 2/- net, post free 2/3.

TEN SHORT PLAYS—Cyngor Plwy'—Trwbwl yn
Wrecsam—Nith Dic Shon Dafydd—Ar Leave—
Natur Plentyn—Byddin y Plant—Dyfodol Plentyn
—Y Milwyr ar Brawf—Cosbi Dafydd—Yr Hen
Siopwr. 2/- net, post free 2/3.

YR HEN SCWLIN. (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net,
post free 1/2.

DAFYDD AP GWILYM. A Romantic Cantata
(*Harry Evans.*) Solfa, 1/-, Old Notation 3/- net.

PLANT Y PENTREF. Welsh School Play with
music. Old Notation, 4/- net, words only 2d. net.

OWAIN GLYNDWR. Nos. 1 to 7. Short Plays for
Schools. 3d. each net. Nos. 1 to 7, bound together
1/6 net.

Licences for Public Performance to be obtained from
The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.

E.P.C. New List of Plays & Dramas IN ENGLISH AND WELSH.

- HANNAH COMES ROUND. (*G. J. Griffith.*) 1/-
net, post free 1/2 net.
CASTELL MARTIN. (*D. T. Davies.*)
FFROIS. (*D. T. Davies.*)
THE SECOND SON. (*Dr. Naunton Davies.*)
2/6 net.
THE EPIDEMIC. (*Dr. Naunton Davies.*) 1/3 net.
A MONOLOGUE FOR ME. (*Dr. Naunton Davies.*)
1/3 net. *
THE CONVERSION. (*Dr. Naunton Davies.*)
1/3 net.
THE SCHEMER. (*Dr. Naunton Davies.*) 2/6 net.
THE ARROGANCE OF POWER. (*Dr. Naunton
Davies.*) 2/6 net.
THE HUMAN FACTOR. (*Dr. Naunton Davies.*)
2/6 net.
THE CRASH. (*Dr. Naunton Davies.*) 2/6 net.
COLLI AC ENNILL. (*W. Bryn Davies.*) 2/- net,
THE FOUR-LEAVED CLOVER. (*Betty Eynon
Davies.*) 1/3 net.
Y FAM. (*Betty Eynon Davies a Kate Roberts.*)
1/3 net.
SANTA CLÔS. (*Megfam.*) 1/3 net.
TWCO 'FALAU. (*Megfam.*) 1/3 net,
CANU CAROLAU. (*Megfam.*) 1/3 net.
DYDD PEN-BLWYDD MEGAN. (*Megfam.*) 1/3 net.
MERCHED Y MWMBWLS. (*Megfam.*) 1/3 net.
THE RETURN. (*M. J. Lewis-James.*) 1/3 net.
-

Licences for Public Performance to be obtained from
The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.



3 0112 072691162